**15 Gorffennaf 2010**

# PWYNT GWYBODAETH GOFAL CANSER Y FRON YNG NGHANOLFAN TRIN CANSER GOGLEDD CYMRU

Bydd arddangosfa wybodaeth newydd yn cael ei gosod yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan ar gyfer pobl a effeithir gan ganser y fron.

Lleolir y stand ym mhrif dderbynfa'r Ganolfan Trin Canser ac mae'n dal ystod eang o daflenni am ddim ynghylch canser y fron ac iechyd y fron, yn ogystal â manylion gwasanaethau cefnogi am ddim i bobl a effeithir gan y clefyd. Gall cleifion sy'n mynychu'r clinig bori'r wybodaeth a mynd a thaflenni gartref, gan helpu sicrhau eu bod nhw a'u teuluoedd yn cael mynediad rhwydd at wybodaeth arbenigol pan fo'i hangen.

Darperir y stand gan elusen cefnogi Gofal Canser y Fron flaenllaw ac fe'i cynhelir gan wirfoddolwyr ymroddedig. Mae Gofal Canser y Fron yn elusen DU cyfan ar gyfer unrhyw un a effeithiwyd gan ganser y fron, sy'n dod a phobl ynghyd, darparu gwybodaeth a chefnogaeth ac ymgyrchoedd i wella safonau gofal.

Dywedodd Bev Hampson, Rheolwr Gwirfoddolwyr Gofal Canser y Fron "Rydym yn falch iawn o gael stand wybodaeth yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru. Mae'r prosiect yn esiampl wych o'r sector wirfoddol a'r GIG yn cydweithio i gefnogi mwy o'r 46,000 o bobl sy'n cael diagnosis o ganser y fron yn y DU yn flynyddol. Ni fyddai modd i ni gynnig y gwasanaeth heb ymroddiad ein gwirfoddolwyr gwych, felly diolch yn fawr iawn i bawb sy'n rhoi o'u hamser i wneud y gwasanaeth yn bosibl".

Dywedodd Yvonne Lush, Pennaeth staff nyrsio cysylltiol a Pat Pilkinton, Nyrs Reolwr Clinigol yn y Ganolfan Trin Canser, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, "Bydd y gwasanaeth gwybodaeth newydd o gymorth mawr i'n cleifion a'u teuluoedd a bydd yn cefnogi eich gwasanaeth gwybodaeth sy'n cael ei ddatblygu gydag aelodau'r sector gwirfoddol, gan gynnwys Macmillan".

Llun o'r chwith i'r dde: Pat Pilkington, Nyrs Arweiniol CemotherapiCanolfan Trin Canser Gogledd Cymru, Mia Solomon (Treasure Chest), Gaynor Wylemen ac Iona Roberts (Gofal Canser y Fron) ac Anne Howarth (Treasure Chest, Grŵp Cefnogi Canser y Fron Lleol)

**DIWEDD**

**Am fanylion pellach, cysylltwch â:**


**Mrs Dawn Davies** **01745 534495**
**Mr Andy Scotson** **01978 725130**
**Mr Trystan Pritchard** **01248 384938**




Llun o'r chwith i'r dde: Pat Pilkington, Nyrs Arweiniol CemotherapiCanolfan Trin Canser Gogledd Cymru, Mia Solomon (Treasure Chest), Gaynor Wylemen ac Iona Roberts (Gofal Canser y Fron) ac Anne Howarth (Treasure Chest, Grŵp Cefnogi Canser y Fron Lleol)

Pictured left to right: Pat Pilkington, Chemotherapy Lead Nurse
North wales Cancer Treatment Centre, Mia Solomon (Treasure Chest), Gaynor Wylemen and Iona Roberts (BreastCancerCare), and Anne Howarth (Treasure Chest Local Breast Cancer Support Group).

**15 July 2010**

# BREAST CANCER CARE INFORMATION STAND AT NORTH WALES CANCER TREATMENT CENTRE

A new information display stand for people affected by breast cancer will be displayed at the North Wales Cancer Treatment Centre at Glan Clwyd Hospital, Bodelwyddan.

Located in the main reception of the Cancer Treatment Centre, the information stand holds a range of free leaflets about breast cancer and breast health, as well as details of free support services for people affected by the disease. Patients visiting the clinic can browse the information and take leaflets home, helping to ensure that they and their families have easy access to expert information when they need it most.

The information stand is provided by leading support charity Breast Cancer Care and is maintained by dedicated volunteers.  Breast Cancer Care is a UK-wide charity for anyone affected by breast cancer which brings people together, provides information and support, and campaigns for improved standards of care.

Bev Hampson, volunteer manager for Breast Cancer Care, says, “We’re very pleased to have an information stand at the North Wales Cancer Treatment Centre because we know how important it is for anyone affected by breast cancer to have access to vital information and support when they need it most. This project is a great example of the voluntary sector and the NHS working together to support more of the 46,000 people who are diagnosed with breast cancer in the UK each year. We would not be able to offer this service without the dedication of our wonderful volunteers, so huge thanks to everyone who is giving their time to make this service possible."

Yvonne Lush Associate chief of staff for nursing and Pat Pilkington Clinical Nurse Manager at the Cancer Treatment Centre, part of the Betsi Cadwaladr University Health Board, said “This new information service will be very helpful to our patients and their families and will support our information service that is being developed with other members of the voluntary sector including Macmillan”

**ENDS**

**For further information please contact:**


| | |
|---|---|
| **Mrs Dawn Davies** | **01745 534495** |
| **Mr Andy Scotson** | **01978 725130** |
| **Mr Trystan Pritchard** | **01248 384938** |